PWYLLGOR PENODIADAU

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2021

YN BRESENNOL: Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)
Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr R Dew, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones ac R Meirion Jones.

WRTH LAW: Prif Weithredwr,
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,
Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,
Rheolwr Adnoddau Dynol (CW),
Swyddog Pwyllgor (MEH).

YMDDIHEURIADAU: Cynghorydd Glyn Haynes

HEFYD YN BRESENNOL: -

---

1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

2 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Awst, 2021 fel cofnod cywir

3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r canlynol:-

"O dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeedig."

CYTUNODD y Pwyllgor drafod eitemau 4, 5 a 6 gyda'i gilydd.

6 PENODIADAU STAFF

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro mewn perthynas â'r swydd uchod.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro bod y Swydd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau a gynhaliwyd ar 31 Awst, wedi ei hysbysebu ar 3 Medi, 2021 tan 27 Medi, 2021. Adroddodd ymhellach, yn unol â'r drefn recriwtio safonol, y ffurfiwyd rhestr fer annibynnol yn seiliedig ar y wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn y ceisiadau a dderbyniwyd. Yr argymhelliad oedd y dylid ail hysbysebu'r swydd am gyfnod o ddwy wythnos. Cafodd ei argymell hefyd i'r Pwyllgor Penodiadau ymgymryd â phroses na fyddai fel arfer yn cael ei hymgymryd â hi ar gyfer Swydd graddfa 10 ar y

sail ei bod yn swydd statudol. Mae'r broses a gafodd ei hargymell yr un fath â'r hyn sydd wedi'i mabwysiadu gan y Pwyllgor Penodiadau ar gyfer swyddi tebyg, sy'n cynnwys tri cham:-

- Cyfweliad allanol yn seiliedig ar broses brofi seicometrig;
- Cyfweliad proffesiynol i'w gynnal gan y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro neu rywun priodol arall a'r Pennaeth Proffesiwn Adnoddau Dynol, fel ffordd o gadarnhau cywirdeb cynnwys y ffurflenni cais;
- Cyfweliad gyda'r Pwyllgor Penodiadau er mwyn gallu gwneud penderfyniad pa ymgeisydd, os unrhyw un, a ddewisir i'w penodi yn dilyn y ddau gam blaenorol a gyflwynir manylion amdanynt mewn adroddiad cyn y cynhelir y cyfweliadau ffurfiol gyda'r Pwyllgor.

PENDERFYNWYD:-

- **Ail hysbysebu'r swydd am gyfnod o ddwy wythnos a bod y ceisiadau a dderbyniwyd yn cael eu cadw ar gyfer ystyriaeth.**
- **Bod y broses tri cham yn cael ei chefnogi yn unfrydol fel y nodwyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.**

CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS
CADEIRYDD